



NHS
WALES
GIG
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Penodi Is-Gadeirydd

Dyddiad Cau: 14 Awst 2017



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cynnwys	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A: Rôl yr Is-gadeirydd	6
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	10
Atodiad C: Y broses ddethol	13

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd yn ofynnol i'r Is-gadeirydd chwarae rôl lawn a gweithgar yn y modd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Is-gadeirydd, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-16a2b888e126/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon drwy eich cyfrif cofrestredig.+

Byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais yn syth ar ôl ichi gofrestru. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. **Datganiad Personol** yw'r ddogfen ategol gyntaf sy'n rhoi atebion, o ran rhoi tystiolaeth o fodloni'r cymwyseddau, i'r cwestiynau isod. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen ategol y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut y byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl yn cyflawni canlyniadau penodol. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir i ba faen prawf y mae pob tystiolaeth benodol yr ydych yn ei darparu yn berthnasol. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraff ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

Rhowch fanylion eich profiad yn arwain ac yn datblygu sefydliad ar lefel uwch ar fwrdd neu gyfatebol a'ch gallu i edrych tua'r dyfodol ac arwain yn strategol.

Drwy roi enghraifft benodol, dangoswch eich profiad o ddatblygu perthynas effeithiol gyda rhanddeiliaid, a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i weithio gydag Ymddiriedolaethau'r GIG, Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol, cleifion, cymunedau lleol a chontractwyr gofal sylfaenol.

Rydym yn chwilio am bobl â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dyrannu a rheoli adnoddau a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn. Yn y cyd-destun hwn, disgrifiwch ym mha ffordd yr ydych wedi cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu gwasanaeth yr oeddech yn gyfrifol amdano.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion iechyd yng nghyd-destun Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar lefelau cymuned, awdurdod lleol a chenedlaethol.

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau rhyngpersonol cadarn i ddangos dylanwad personol a hygredd i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	14 Awst 2017
Creu rhestr fer:	23 Awst 2017
Cynnal cyfweiliadau:	1 Medi 2017
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted â phosibl.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd pob deufis mewn lleoliadau gwahanol yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol amrywiol bwyllgorau hefyd, a chynhelir y cyfarfodydd naill ai bob deufis neu'n chwarterol.

Tâl cydnabyddiaeth: £56,316 y flwyddyn

Ymrwymiad Amser: Mae swydd yr Is-gadeirydd yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweiliad

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwarantu Cyfweiliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweiliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweiliad os yw'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: sharedservicehelpdesk@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Is-gadeirydd, cysylltwch â Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ffôn: 029 2074 5684. E-bost: Maria.battle@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ewch i wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.billcaerdyddarfro.cymru.nhs.uk/>

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i SharedServiceHelpdesk@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Atodiad A

Rôl yr Is-gadeirydd

Disgrifiad o'r rôl

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Bwrdd ac yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd, os bydd yn absennol am unrhyw reswm.

Bydd yr Is-gadeirydd yn:

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei reoli, mewn modd clinigol a chorfforaethol, ac mae disgwyl iddynt gynnig barn annibynnol i'r Bwrdd am faterion fel perfformiad, penodiadau allweddol, rhagolygon ac atebolrwydd
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar ei annibyniaeth, ei brofiad yn y gorffennol a'i wybodaeth, a'i allu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Yn dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i weithredu'n effeithiol
- Gweithio'n agos gyda chyrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i siapio, datblygu a gwella gwasanaethau.

Yn ogystal â'i rôl gorfforaethol ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, bydd gan yr Is-gadeirydd gyfrifoldeb penodol i oruchwylio gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledd dysgu'r Bwrdd Iechyd gan sicrhau model gofal cytbwys sy'n diwallu anghenion poblogaeth y Bwrdd Iechyd. Bydd yr Is-gadeirydd yn:

- **Cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu; yn fewnol drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel ehangach y gymuned ac yn genedlaethol
- **Cadeirio** Pwyllgor Deddfwriaeth ar Iechyd Meddwl a Chapasiti y Bwrdd sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl a chodau ymarfer cysylltiedig
- **Cymryd cyfrifoldeb am** graffu ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Yn gweithio o fewn fframwaith llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod gwaith system gyfan yn cael ei wneud yn effeithiol ar sail llwybrau gofal integredig
- **Gweithio'n agos** gyda'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl i gytuno ar raglen waith integredig a'i chyflwyno, er mwyn adlewyrchu anghenion pobl sy'n byw yn ardal Caerdydd a'r Fro
- **Gweithio'n effeithiol** gyda phartneriaid yn y gymuned, yn arbennig yn ei faes cyfrifoldeb ac yn fwy eang a chefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod diwylliant ac arferion gwaith y sefydliad yn seiliedig ar ysbryd o bartneriaethau agored, ystyrlon a chynaliadwy. Bydd gan yr Is-gadeirydd sgiliau cyfathrebu rhagorol a, thrwy graffu effeithiol, bydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod strwythurau'r

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

sefydliad yn rhoi pwys cyfartal ar wasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl ac ar wasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd, gan roi cyfle i wasanaethau contractwyr chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau

- **Cefnogi prosesau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd**, i sicrhau system rheoli a gwella perfformiad integredig
- **Helpu i feithrin a chynnal perthynas uniongyrchol** â gweithwyr proffesiynol sy'n contractwyr gofal sylfaenol, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd Iechyd
- **Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus a meithrin hyder y cyhoedd.

Manyleb y person

Bydd pob Is-gadeirydd yn dangos y rhinweddau canlynol:

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o arwain a datblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus, a'r gallu i edrych i'r dyfodol a chynnig arweiniad strategol
- Profiad o ddeall y berthynas rhwng dyrannu adnoddau a rheoli a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a chyfrannu at benderfyniadau cadarn
- Y gallu i weithio gyda'r cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad yn effeithiol. Lle y bo angen, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddwyn y cyfarwyddwyr gweithredol i gyfrif am berfformiad gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd
- Y gallu i gyfrannu at brosesau 'Llywodraethu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau
- Profiad o weithio mewn cymunedau a thimau amlddisgyblaethol.

Priodoleddau Personol a Sgiliau

Bydd angen i chi allu dangos y canlynol:-

- Y gallu i arwain ac ysbrydoli staff, edrych i'r dyfodol a nodi'r materion allweddol ar gyfer y sefydliad
- Sgiliau rhyngpersonol cadarn a digon o ddylanwad personol a hygredded i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau hirdymor a thymor byr
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno, a'r gallu i feithrin cysylltiad â phobl ar bob lefel
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn
- Y gallu i gyflawni rôl yr Is-gadeirydd yng nghyd-destun cyfrifoldebau statudol a chorfforaethol ehangach y Bwrdd a rolau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:

- Dealltwriaeth eglur o faterion cydraddoldeb ac arferion gwahaniaethol heriol ac ymrwymiad iddynt
- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan', ynghyd ag ymrwymiad iddynt.

Y Gymraeg

Mae lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y penodiad hwn wedi'i nodi fel Dymunol.

Ymrwymiad amser

Mae swydd Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Tâl cydnabyddiaeth

Bydd yr Is-gadeirydd yn cael £56,316 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, fel y cytunwyd gyda'r Bwrdd Iechyd.

Treuliau

Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon sy'n pennu hyd y penodiad, a bydd am gyfnod o hyd at bedair (4) mlynedd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Is-gadeirydd yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall unigolyn fod yn aelod o'r Bwrdd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd

Penodir Is-gadeiryddion gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a byddant yn atebol i'r Ysgrifennydd hwn am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Caiff unigolyn ei ddiarddel o'r penodiad os bydd:

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd ddiwethaf yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- c. wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd
- d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol
- e. yn cael ei gyflogi gan y gwasanaeth iechyd.

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG dreulio cyfnod heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer un o Benodiadau Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais am benodiad yn y ffurflen gais o dan yr adran Gwrthdaro Buddiannau.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys a hwythau wedi eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Bwrdd.

Ar ôl penodi, bydd angen i Is-gadeiryddion ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oes unrhyw wrthdaro'n codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Is-gadeiryddion gadw at y safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cefndir

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Hydref 2009 ac mae'n un o sefydliadau mwyaf y GIG yn y DU. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gyfrifol am tua 475,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Ynghyd â hyrwyddo iechyd a swyddogaethau iechyd y cyhoedd, mae hefyd yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol (meddygfeydd teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol) a rhedeg ysbytai, canolfannau iechyd, timau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Ar y cyd â rhai gwasanaethau gan fyrddau iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae'r rhain yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd i'r bobl sy'n byw'n lleol ac i bobl eraill Cymru a Lloegr sy'n defnyddio ein gwasanaethau arbenigol. Mae Ysbyty Plant Cymru Arch Noa wedi'i leoli ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Mae'n darparu gofal iechyd i blant Caerdydd ond hefyd yn darparu gwasanaethau trydyddol i blant o bob cwr o Gymru. Yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau mae Hafan y Coed, sef uned iechyd meddwl newydd i oedolion a agorwyd ym mis Ebrill 2016. Mae'r uned yn cynnig awyrgylch fodern, therapiwtig sy'n canolbwyntio ar wella i oedolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae'r uned newydd o'r radd flaenaf a bydd yn helpu defnyddwyr y gwasanaeth i wella ac i adsefydlu.

Siapio ein Lles i'r Dyfodol yw ein Strategaeth 10 mlynedd (2015-2025)

<http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/our-mission-and-vision> *Gofalu am bobl, Cadw pob yn iach* yw'r rheswm dros ein bodolaeth fel Bwrdd Iechyd. Rydym yn credu y dylai pawb gael yr un cyfle i gael byw bywyd iach, pwy bynnag ydyn nhw a lle bynnag maen nhw'n byw. Rhan annatod o'n strategaeth yw'r dyhead i sicrhau gofal cyson sy'n canolbwyntio ar ofal yn y cartref yn gyntaf, osgoi niwed, gwastraff ac amrywiadau yn y gofal, grymuso unigolion a chyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.

Er mwyn cyflenwi'r gwasanaethau amrywiol a chymhleth hyn, rydym yn gwario dros £1.2 biliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi tua 14,000 o staff. Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Iechyd, doctoriaid a nyrsys fydd yn dod i'r meddwl, ond mae'n bwysig cofio bod amryw o swyddi gwahanol yn cyfrannu at sicrhau bod y gofal rydym yn ei ddarparu yn bosib. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwyddonwyr iechyd yn cynnwys gweithwyr mewn dros 40 o wahanol swyddi gan gynnwys dietegwyr, ffisiotherapyddion, radiograffwyr, awdiolegwyr a gwyddonwyr labordy. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi staff i ddarparu gofal clinigol uniongyrchol ac mae'r rhai sy'n darparu cefnogaeth nad yw'n glinigol yn cynnwys ein porthorion, staff glanhau ac arlwygo, trydanwyr a pheirianwyr, a llawer mwy.

Rydym hefyd yn Fwrdd Iechyd addysgu gyda chysylltiad agos â Phrifysgol Caerdydd, sy'n ymfalchïo mewn rôl flaenllaw o ran dysgu, ymchwil a datblygu yn y DU a thramor. Mae hyn ar ben cysylltiadau academiaidd eraill â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

nesaf o weithwyr clinigol proffesiynol fel ein bod yn datblygu ein harbenigedd ac yn gwella canlyniadau clinigol.

Ein Gwerthoedd 'GOFALU AM BOBL; CADW POBL YN IACH'

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro waith pwysig i'w wneud. Mae'r hyn rydym yn ei wneud yn bwysig oherwydd mai ein gwaith ni yw gofalu am bobl a'u cadw'n iach. Rydym eisiau gwneud hyn hyd eithaf ein gallu – ond rydym yn gwybod nad yw ewyllys da yn ddigon bob amser.

Gwerthoedd ac arferion gorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw:

Rydym yn gofalu am y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethau a'n cydweithwyr	Trin pobl fel yr hoffech gael eich trin a hynny mewn ffordd dosturiol
Rydym yn ymddiried ac yn parchu ein gilydd	Gofyn am adborth gan eraill ynghylch eich gwaith a chanolbwyntio ar wneud pethau'n well
Rydym yn cymryd cyfrifoldeb personol	Bod yn frwdfrydig a chymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydych yn ei wneud.
Rydym yn trin pobl yn garedig	Diolch i bobl, dathlu llwyddiant a gofyn 'beth allaf i ei ddysgu?' pan fo pethau'n mynd o chwith
Rydym yn gweithredu gydag uniondeb cymeriad	Peidio â blaenoriaethu strwythur a systemau dros wneud y peth iawn

Mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio a sut y byddwn yn ymddwyn ag eraill. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymddwyn yn un unol â'n gwerthoedd bob amser, gan ddangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cleifion.

Rôl y Bwrdd

Y tair rôl allweddol sy'n rhan o waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gynnig arweinyddiaeth i'r sefydliad yw:-

- Lluo strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Llywio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt drwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrhwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos drwy

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliadau a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich ffurflen gais, CV a'r cwestiynau a ateboch chi fel rhan o'ch datganiad personol i benderfynu p'un a ydych yn bodloni meini prawf y rôl, ac a gewch eich gwahodd am gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'r cwestiynau a atebwyd gennych fel rhan o'ch datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carl Eley, Llywodraeth Cymru ac Ruth Mark, Cyngor Gweithredu, Gwirfoddol Cymru.

Yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Creu rhestr fer yw'r 23 Awst 2017, cynnal cyfweiliadau yw'r 1 Medi 2017. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad yw dyddiad y cyfweiliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, fe wnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer penodi, neu argaeledd y panel dewis.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn ystyried eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Ysgrifennydd y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

bresennol ym mhob cyfarfod a gynhelir. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweild yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn eich penodi'n Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sy'n mynd i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i sharedservicehelpdesk@cymru.gsi.gov.uk

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Y Comisiynydd sy'n rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod gweithdrefnau'n deg, yn agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar deilyngdod. Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu yma <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i sharedservicehelpdesk@cymru.gsi.gov.uk.

Os ydych yn parhau'n bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk